RHIFYN
ISSUE
36
16.03.21

Llais Llantrisant

CROESO CYNNES
A WARM WELCOME

Croeso cynnes iawn i Miss O'Leary sydd wedi ymuno â ni y tymor hwn o Brifysgol UWE, Bryste. Bydd Miss O'Leary yn addysgu plant Dosbarth 5 o dan ofal ac arweiniad Mrs Lisa Morrish. Gobeithio y bydd Miss O'Leary yn ymgartrefu ac yn mwynhau ei hamser gyda ni.

A very warm welcome to Miss O'Leary who has joined us this term from UWE, Bristol. Miss O'Leary will be teaching Class 5 pupils under Mrs Lisa Morrish's care and guidance. We hope that Miss O'Leary makes herself at home and enjoys her time with us.





DYDDIADAU ALLWEDDOL
KEY DATES

19.03.21 - Eisteddfod yr Ysgol
School Eisteddfod
26.03.21 - Gorymdaith Hetiau'r Pasg - Dosbarth 1 i 5
Easter Hat Parade - Class 1 to 5
26.03.21 - Diwrnod olaf Tymor y Gwanwyn
Last day of the Spring Term
13.04.21 - Plant yn dychwelyd ar gyfer Tymor yr Haf
Children return for the Summer Term

CROESO NÔL
WELCOME BACK

Hwrê! Erbyn hyn, mae pob plentyn wedi dychwelyd i'r ysgol ac yn mwynhau bod nôl yng nghwmni eu ffrindiau a'r athrawon. Gyda phawb yn cydweithio, gobeithiwn mai dyma'r tro olaf y bydd rhaid i ni gau'r ysgol! Croesi bysedd!

Hooray! By now, all children have returned to school and are enjoying being back in the company of their friends and teachers. With everyone's cooperation, we hope that this will be the last time we shall have to close the whole school. Fingers crossed!

CINIAWAU YSGOL
SCHOOL LUNCHES



Os hoffech i'ch plant gael cinio ysgol am yr wythnos dyma'r drefn:

- **Talwch ar-lein am yr wythnos - £12.75 (cost pryd = £2.55)**
- **Bydd y plant yn archebu cinio bob bore yr wythnos yna pan fydd yr athrawon yn cymryd y gofrestr**

Bydd Swyddfa'r Ysgol yn derbyn eich taliadau erbyn bore dydd Llun a gall yr ysgol drefnu lefelau staffio amser cinio am yr wythnos.
Cofiwch ebostio Swyddfa'r Ysgol os nad ydych wedi cadw cofnod o'ch rhif talu arlein unigol.

Should you wish for your children to have school lunches for the week, here's the procedure:

- *Pay online for the week - £12.75 (lunch cost = £2.55)*
- *The children will then order their lunch each morning that week when the teachers take the register.*

The School Office will receive the payments overnight by Monday morning and school can then arrange the relevant lunchtime staffing ratios.
Remember to email the School Office if you've misplaced your individual online payment number.

****Cofiwch edrych ar wefan yr ysgol i wybod mwy am dalu arlein**
***Remember to have a look at the school website to learn more about paying online*

CYFARFODYDD CYNNYDD TYMOR YR HAF
SUMMER TERM PROGRESS MEETINGS

Yn anffodus, ni fydd yn bosibl i ni wahodd rhieni i mewn i'r ysgol i gynnal cyfarfodydd cynnydd cyn diwedd y flwyddyn. Bwriedir cynnal cyfarfodydd deng munud dros y we ar gyfer pob plentyn. Fel y byddwch yn gwerthfawrogi, bydd hyn yn gamp a hanner ond, gyda chydweithrediad pawb, ymdrechwn i sicrhau ein bod yn llwyddo i wneud hyn. Cewch ragor o wybodaeth yn gynnar yn ystod Tymor yr Haf.
Unfortunately, we will not be able to invite parents into the school for open evenings before the end of the year. We intend to hold ten minute online meetings for each child in the Summer Term. As you will appreciate, this will be some task but, with everyone working together, we shall endeavour to make this a success. You will receive further information early in the Summer Term.





CASGLU DATA
DATA COLLECTION

Hoffem atgoffa pawb am y llythyr yma a anfonwyd at bawb fis Rhagfyr. Ychydig iawn o ymatebion sydd wedi'n cyrraedd. Gofynnir yn garedig i chi gwblhau'r taflenni casglu data a'u dychwelyd i: data.yggllantrisant@rctcbc.gov.uk erbyn dydd Gwener, Mawrth 26ain os gwelwch yn dda.

We should like to remind everyone of this letter which was sent out in December. Very few responses have been received to date. We kindly ask that you complete the data collection form and return it to:
data.yggllantrisant@rctcbc.gov.uk
by Friday March, 26th please.

CLWB BRECWAST RCT
RCT BREAKFAST CLUB

Fel y gwyddoch, dim ond y plant oedd wedi cael lle yn y Clwb Brecwast yn dilyn y broses o ymgeisio cyn y Nadolig fydd yn cael mynychu'r ddarpariaeth hon tan 26.03.21. Agorwyd system cadw lle RCT ar 12.03.21. RCT fydd yn eich hysbysu os oedd eich cais yn llwyddiannus.

As you will be aware, only those pupils whose parents made a successful application through RCT before Christmas 2020 are eligible to attend this club until 26.03.21. RCT's booking system reopened on 12.03.21 for the Summer Term cohort. RCT will inform you if your application was successful.

RHONDDA CYNON TAF

CABANAU'R YSGOL
THE SCHOOL'S PORTAKABINS

Mae goleuni pen draw'r twnel, fel petai! Rydym yn edrych ymlaen yn fawr iawn at gael defnyddio'r ddau gaban wedi gwyliau'r Pasg! Bwriedir ail-sefydlu HWB TGCh ac ystafell cyfryngau mewn un caban gyda'r llall at ddefnydd sesiynau ymyraethau llythrennedd, rhifedd a lles. Dyna ddwy flynedd sydd wedi llusgo!!

There is light at the end of the tunnel, as it were! We are very much looking forward to having use of both cabins after the Easter break. We intend to re-establish the ICT Hub and a media room in one cabin with the second being utilised as a language, numeracy and wellbeing interventions room. Two long years!!





Ewch i / *Remember to visit :* **www.yggglantrisant.cymru**

PRESENOLDEB A SALWCH
ATTENDANCE AND ILLNESS

Gofynnir yn garedig i rieni ffonio'r ysgol yn brydlon bob bore i gofnodi absenoldeb, os gwelwch yn dda. Gofynnir yn garedig i chi beidio ag ebostio'r athrawon dosbarth gan na fydd amser gan yr athrawon i edrych ar yr ebost bob bore a gan mai Mrs Krieger yn Swyddfa'r Ysgol sydd yn gyfrifol am gysylltu â chi trwy neges destun bob bore.

Os bydd plentyn yn dost neu ag apwyntiad meddygol, gofynnir i chi gysylltu â'r ysgol trwy alwad ffôn neu lythyr diwrnod cyntaf yr absenoldeb a phob diwrnod arall o absenoldeb yn dilyn hyn os gwelwch yn dda. Os bydd apwyntiad meddygol gan blentyn, mae angen i Swyddfa'r Ysgol weld cerdyn / llythyr er mwyn bwydo hyn i mewn i system gofrestru'r ysgol.

Gofynnir i bob rhiant anfon taflen TREFNIADAU DIWEDD Y DYDD at athrawon eu plant bob dydd Llun os gwelwch yn dda. Os bydd trefniadau yn aros yr un peth am y tymor, cwblhewch un daflen a nodwch hyn arni os gwelwch yn dda.

Parents are kindly asked to telephone school each morning to report an absence. You are kindly asked not to email the class teacher with this information, please, as they will not have time first thing in the morning to check emails and Mrs Krieger in the School Office is tasked with texting parents each morning. If a pupil is ill, or has a medical appointment, you are asked to contact the school by telephone call or letter to inform us on the first day of absence and each day following this until return to school, please. If a child has a medical appointment, please provide the School Office with the appointment card / letter so this can be entered into the school's registration system.

Also, all parents are kindly asked to complete and return to school an END OF DAY ARRANGEMENTS sheet on Monday mornings please. If arrangements are likely to remain the same for the term, please state this on the form and send only one form at the beginning of the term for your convenience.



DOSBARTHIADAU 2021 - 2022
2021 - 2022 CLASSES

Mae'n anodd credu ein bod yn bwrw golwg ar nifeoredd disgyblion a strwythur y dosbarthiadau fis Medi 2021 yn barod! Ar hyn o bryd, mae 271 o ddisgyblion yn yr ysgol. Bydd 45 o blant Blwyddyn 6 yn ein gadael ni fis Gorffennaf i symud i'r ysgol uwchradd gyda 25 o geisiadau Meithrin newydd ar gyfer mis Medi. Golyga hyn y bydd 251 o ddisgyblion gyda ni fis Medi. Felly, oherwydd y niferoedd hyn, hoffem eich blaen-hysbysu y bydd rhaid rhannu'r dosbarthiadau presennol i greu'r dosbarthiadau newydd ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd. Ni fydd hyn yn dod fel newyddion i chi, rwy'n siwr, gan ein bod yn tynnu sylw pawb at hyn bob blwyddyn yn y daflen sydd yn cael ei hanfon atoch ynghyd â'r adroddiad blynyddol pob mis Gorffennaf.

It is hard to believe that we are already looking at pupil numbers and class structures for September 2021! Currently, there are 271 pupils in school. 45 Year 6 children will leave us in July to move on to secondary school and we have 25 applications for a nursery place in September. This will result in us having 251 pupils on roll in September. Therefore, due to these projected numbers, we should like to inform everyone beforehand that current classes will be divided to create the new class structures for the new academic year. I am sure that this will not come as news to you as we draw everyone's attention to the possibility of this having to happen in the sheet which accompanies the end of year reports each July.



LLONGYFARCHIADAU!
CONGRATULATIONS!

Da iawn wir i CH am godi £345 tuag at @maggiescardiff - elusen sydd yn helpu teuluoedd â chancr ac i IOJ am wneud yn arbennig o dda mewn cystadleuaeth gan y Bathdy Brenhinol i ysgrifennu stori fer.

Well done to CH for raising £345 towards @maggiescardiff - a charity which supports families suffering from the effects of cancer and also to IOJ for her great performance in a recent Royal Mint competition to write a short story.

GWEFAN YR YSGOL
THE SCHOOL WEBSITE



Cofiwch fwrw golwg ar y tudalennau pwysig isod yn rheolaidd:

Remember to regularly visit the important pages below:

https://www.yggglantrisant.cymru/coronafeirws-coronavirus/
https://www.yggglantrisant.cymru/stream/newsletters/full/1/-//
https://www.yggglantrisant.cymru/llais-llantrisant-cylchlythyr-yr-ysgol-school-news/

Dilynwch ni / *Follow us :* **@YGGGLlantrisant**